Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU a gynhaliwyd yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / remotely via video conference ddydd Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Wyn Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Keith Evans, Marc Davies, Gwyn Wigley Evans, Chris James, Caryl Roberts, Elaine Evans, Rhodri Evans, Ceris Jones ac Amanda Edwards.

AELODAU CABINET YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Alun Williams

SWYDDOGION YN BRESENNOL: Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol; Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol; Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol; Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol; Timothy Bray, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Posibl; Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu a Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Gareth Lloyd

(2.00 - 3.45 pm)

5 Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd i'r Cadeirydd blaenorol, y Cynghorydd Keith Evans, am ei waith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac am fod mor barod i'w gefnogi a'i fentora. Diolchodd y Cynghorydd Keith Evans i Aelodau'r Pwyllgor am eu cymorth a dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Wyn Evans fel y Cadeirydd newydd.

Ymddiheurodd Hazel Lloyd-Lubran, Prif Weithredwr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) a Chadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am na fedrai ddod i'r cyfarfod.

6 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Dim.

Yn dilyn cais, cafodd eitem 10 ar yr agenda ei hystyried yn gyntaf gan y byddai rhai swyddogion yn hwyr yn cyrraedd y cyfarfod. Cytunodd pob aelod o'r Pwyllgor y byddai eitem 10 yn cael ei hystyried yn gyntaf.

7 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

CYTUNWYD i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024 yn gywir. Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion hynny.

8 Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2024

Croesawodd y Cadeirydd, Diana Davies a Timothy Bray, Swyddogion, i'r cyfarfod i gyflwyno cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

.

O dan Adran 35 o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roedd yn ofynnol i'r Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerir, gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr Awdurdod Lleol wrth arfer ei swyddogaethau.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd fel rhan o'r drafodaeth:

- Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor eu siom am eu bod ar ddeall nad oedd ARFOR mwyach yn derbyn ceisiadau am gyllid. Cytunwyd y byddai Timothy Bray yn codi hyn yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 18 Gorffennaf 2024.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

Argymhelliad:

i. Derbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2024.

Rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i dderbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2024.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am fod yn bresennol ac am gyflwyno'r wybodaeth.

9 Strategaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion 2024

Croesawyd Timothy Bray, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Posibl, i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad ac esboniodd Mr Bray y sefyllfa bresennol.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd fel rhan o'r drafodaeth:

- Codwyd pryderon ynghylch y newyddion yn ddiweddar y byddai carcharorion yn cael eu rhyddhau'n gynnar ac effaith hyn ar y Gwasanaeth Prawf. Gofynnwyd a fyddai hyn yn effeithio ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Wrth ymateb, dywedwyd y byddai

hyn yn effeithio ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ond nad oedd dim trafodaethau wedi'u cynnal hyd yma am nad oedd cyfarfod wedi'i gynnal ers i'r cyhoeddiad gael ei wneud.

- Ar dudalen 11 o'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol, roedd cyfeiriad at y ffaith bod 61% o'r rhai a ymatebodd i'r Arolwg Llesiant (a oedd yn cael ei ystyried wrth baratoi'r Asesiad Llesiant Lleol) wedi nodi mai'r hyn yr oeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned oedd bod modd iddynt deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Codwyd pryderon y gallai hyn olygu nad oedd 39% yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Cadarnhawyd y byddai rhoi tawelwch meddwl i'r cyhoedd yn rhan hanfodol o waith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

Argymhelliad:
Nodi cynnwys Strategaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion 2024 a'r daflen 'Ein Cynllun yn Gryno'.

Rheswm dros yr Argymhelliad:
Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys Strategaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion 2024 a'r daflen 'Ein Cynllun yn Gryno'.

10 Dyletswydd Trais Difrifol: Asesiad o Anghenion Strategol Trais Difrifol Dyfed Powys a Strategaeth Dyletswydd Trais Difrifol Dyfed Powys

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor Cydlynu yr adroddiad a gyflwynwyd gan Timothy Bray ar y Ddyletswydd Trais Difrifol: Asesiad o Anghenion Strategol Trais Difrifol Dyfed Powys a Strategaeth Dyletswydd Trais Difrifol Dyfed Powys**.** Y Pwyllgor Craffu hwn oedd yr un a ddynodwyd i gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Dechreuodd y Ddyletswydd Trais Difrifol ym mis Ionawr 2023 a chyflwynwyd papur rhagarweiniol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 22 Mai 2023 ac i'r Cabinet ar 6 Mehefin 2023 er mwyn tynnu sylw at oblygiadau'r ddyletswydd i'r Cyngor, ac i ffurfioli'r cyfrifoldeb am y trefniadau o ran y gwaith a'r bartneriaeth. Y strwythur partneriaethol a ddefnyddiwyd gan Ddyfed Powys i gyflawni gofynion llywodraethu'r Ddyletswydd Trais Difrifol oedd y Bwrdd Strategol ar gyfer Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol, ac roedd swyddogion y Cyngor yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd hwn.

Dyma un o'r prif faterion a godwyd fel rhan o'r drafodaeth:

- Codwyd pryder ynghylch cyllid a soniwyd am feysydd /ardaloedd yn y sir y byddai'n werth eu blaenoriaethu a chanolbwyntio arnynt. Cytunwyd y byddai swyddogion yn dychwelyd i'r Pwyllgor, unwaith y byddai'r cynlluniau ar waith, i

roi gwybodaeth am y meysydd/ardaloedd y byddent yn canolbwyntio arnynt.

Yn dilyn trafodaeth, ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor yr argymhelliad canlynol:

Argymhelliad:
Bod y Pwyllgor yn gwneud y canlynol:

i. Nodi canfyddiadau Asesiad o Anghenion Strategol Trais Difrifol Dyfed Powys.
ii. Nodi Strategaeth Trais Difrifol Dyfed Powys.

Rheswm dros yr argymhellion:
Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad a diolchodd y Cadeirydd i Timothy Bray am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno'r adroddiadau.

11 Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Cwarter 3 2023/24

Croesawyd y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet ac Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad CYSUR/CWMPAS chwarter 3.

Dyma grynodeb o'r prif bwyntiau:

➢ Yn Chwarter 3, roedd gostyngiad bach iawn yn nifer y cysylltiadau/adroddiadau a dderbyniwyd ynghylch plant/pobl ifanc o'i gymharu â Chwarter 2 - gyda 926 o gysylltiadau/adroddiadau wedi'u derbyn yn Chwarter 3 o'i gymharu â 928 o gysylltiadau/adroddiadau a dderbyniwyd yn Chwarter 2.

➢ Fodd bynnag, er bod lleihad yn nifer y cysylltiadau/adroddiadau a dderbyniwyd yn Chwarter 3, roedd cynnydd mawr yn y nifer cyffredinol o gysylltiadau/adroddiadau a arweiniodd at yr angen i gymryd camau gweithredu yn unol â'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant; cynnydd o 132 yn Chwarter 2 i 179 yn Chwarter 3.

➢ O'r adroddiadau a dderbyniwyd, canran yr adroddiadau a aeth ymlaen i Drafodaeth Strategaeth yn y chwarter hwn oedd 19.3%, o'i gymharu â 14.2% yn Chwarter 2 ac 19.4% yn Chwarter 1.

➢ Yn Chwarter 3, aeth 9.6% ymlaen i ymholiad Adran 47 o'i gymharu â 5.9% yn Chwarter 2 ac mae hyn o'i gymharu ag 8.8% yn Chwarter 1.

➢ Roedd 1.3% yn mynd i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant yn Chwarter 3 o'i gymharu â 0.9% yn Chwarter 2, a 0.7% yn Chwarter 1.

➢ Felly, yn anffodus, mae nifer yr achosion yr oedd angen gweithredu arnynt o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Plant yn ôl i'r un lefel ag yr oedd yn Chwarter 1.

➢ Mae cyfanswm y plant sy'n destun Cynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant wedi cynyddu i 17 yn y chwarter hwn o'i gymharu ag 16 yn Chwarter 2 a 10 yn Chwarter 1.

➢ Cyfanswm y plant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn yn dilyn y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant oedd 16 o'i gymharu â 10 yn Chwarter 2.

➢ Cyfanswm y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr ar ôl Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn oedd 21 o'i gymharu â 22 yn y chwarter diwethaf.

➢ Ar ddiwedd y chwarter hwn, roedd 33 o blant/pobl ifanc wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o'i gymharu â 40 ar ddiwedd Chwarter 2 a 52 ar ddiwedd Chwarter 1. Felly, mae gostyngiad cyson yn nifer y plant sydd ar y gofrestr.

➢ Roedd cynnydd sylweddol yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gan yr Heddlu a staff mewnol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, yr ysgolion oedd y ffynhonnell gyfeirio fwyaf yn ystod y chwarter. Bu i'r ysgolion hefyd gofnodi cynnydd sylweddol mewn pryderon diogelu.

➢ Mae cyfanswm yr ymholiadau Adran 47 a wnaed wedi cynyddu yn y chwarter hwn hefyd, gyda 89 yn Chwarter 3 o'i gymharu â 55 yn Chwarter 2. Roedd 74 ar y cyd â'r Heddlu yn y chwarter hwn ac roedd 15 fel Asiantaeth Sengl Gwasanaethau Cymdeithasol.

➢ Y prif gategori o gam-drin a arweiniodd at ymholiad Adran 47 yn Chwarter 3 oedd honiadau o gam-drin corfforol a cham-drin/cam-fanteisio rhywiol – yr un oedd y sefyllfa yn Chwarteri 1 a 2.

➢ Yr hyn sy'n dal i beri pryder yn y chwarter hwn yw'r ffaith nad oeddem yn gallu bodloni ein hamserlenni statudol o gynnal Cynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant o fewn y 15 diwrnod ar ôl penderfynu ar ganlyniad ymholiad Adran 47 lle nodir bod angen cynhadledd gan fod y plentyn yn parhau i fod mewn perygl. Er bod gwelliant wedi bod ers Chwarter 2 lle mai dim ond 43.7% oedd o fewn yr amserlen (58.8% oedd y ffigwr yn Chwarter 3) roedd materion staffio ac argaeledd gweithwyr proffesiynol o asiantaethau eraill, yn dal i effeithio ar gydymffurfiad ag amserlenni statudol, er bod hyn yn gwella. Fodd bynnag, cynhaliwyd 93.8% o'r grwpiau craidd o fewn yr amserlen.

➢ O ran Diogelu Oedolion, bu gostyngiad bach yn nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin a/neu eu hesgeuluso a adroddwyd yn y chwarter hwn (180) o'i gymharu â Chwarter 2 (181).

➢ Cyfanswm yr adroddiadau a dderbyniwyd yn y chwarter hwn oedd 226 o'i gymharu â 228 yn Chwarter 2.

➢ Staff yn yr Awdurdod Lleol oedd prif ffynhonnell yr atgyfeiriadau yn y chwarter hwn fel yn y chwarter blaenorol gydag asiantaethau darparu yn ail brif ffynhonnell.

➢ Y categori cam-drin a adroddwyd amdano fwyaf yn y chwarter hwn oedd cam-drin emosiynol/seicolegol (111) ac esgeulustod (90). Roedd

66 o adroddiadau yn ymwneud â cham-drin corfforol, roedd 36 yn ymwneud â cham-drin ariannol ac roedd 7 yn ymwneud â cham-drin rhywiol. Cam-drin emosiynol/seicolegol ac esgeulustod oedd y categorïau cam-drin a adroddwyd amdanyn nhw fwyaf yn y chwarter blaenorol hefyd ond roedd esgeulustod yn fwy cyffredin yn y chwarter hwnnw.

➢ O'r adroddiadau a dderbyniwyd, mewn perthynas â'r holl gategorïau cam-drin, roedd mwy o fenywod yn ddioddefwyr o gymharu â dynion, ac eithrio cam-drin ariannol lle'r oedd nifer gyfartal o adroddiadau ar gyfer dynion a menywod mewn perthynas â hyn.

➢ Yn Chwarter 3, fel yn achos Chwarter 2, adroddwyd bod rhan fwyaf y gamdriniaeth/esgeulustod wedi digwydd yng nghartrefi'r bobl eu hunain, gyda pherthynas / cyfaill yn gyfrifol am y gamdriniaeth/esgeulustod a gofnodwyd. Yr ail uchaf oedd mewn cartref gofal, gyda gweithiwr cyflogedig yn gyfrifol am y gamdriniaeth/esgeulustod honedig.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd fel rhan o'r drafodaeth:

- Wrth ymateb i gwestiwn am gysylltiadau ac atgyfeiriadau, cadarnhawyd bod yr holl gysylltiadau ac atgyfeiriadau yn y lle cyntaf yn cael eu brysbennu.
- Wrth ymateb i gwestiwn am gysylltiadau ac atgyfeiriadau yng nghyswllt plant, cadarnhawyd mai'r prif gategorïau o gamdriniaeth a gofnodwyd oedd cam-drin corfforol a cham-drin rhywiol. O ran oedolion, y prif gategorïau o gamdriniaeth a gofnodwyd oedd cam-drin emosiynol, cam-drin seicolegol a cham-drin domestig.
- Cadarnhawyd bod Swyddog Diogelu ar gyfer yr Ysgolion yn cael ei gyflogi.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

Argymhelliad: nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol

Rheswm dros y penderfyniad: fel bod trefniadau llywodraethu'r Awdurdod Lleol a'r asiantaethau sy'n bartneriaid yn cael eu monitro.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a'r Swyddog am gyflwyno'r wybodaeth.

.

12 Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft

Bu i Gadeirydd pob Pwyllgor ddarparu gwybodaeth yn eu tro am Flaenraglenni Gwaith eu Pwyllgorau. Yn ystod y drafodaeth, cytunwyd i ychwanegu'r canlynol at y Cynlluniau Gwaith:

Adnoddau Corfforaethol: Diweddariad ynglŷn â gwerthu cartref Bodlondeb. Byddai pob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystyried diweddariad am y sefyllfa ariannol yn ystod yr hydref.

Daeth Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, i'r cyfarfod i sôn am 4 eitem o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a oedd wedi'u trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 16 Gorffennaf 2024. Roedd y 4 eitem hyn fel a ganlyn:

1. R025: (risg newydd a ychwanegwyd ar 16.7.24) Diogelwch Tân a Mesurau Amddiffyn ar Eiddo'r Cyngor – nodwyd posibilrwydd y byddai'r risg hon yn cael ei huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Roedd y risg yn ymwneud â maint a chost y gwaith oedd angen ei wneud mewn adeiladau o eiddo'r Cyngor i gydymffurfio â'r rheoliadau tân diweddaraf ac ymagwedd gadarnach gan yr Awdurdod Tân ac Achub
2. R009: Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch
3. R023: Diwedd Oes Systemau
4. R024: Seibergadernid.

Byddai'r rhain yn dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol. Dywedodd Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu wrth y Pwyllgor fod R023 wedi'i roi ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor a byddai'n cael ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8 Hydref 2024. Byddai'n trafod y risgiau eraill gyda'r Cadeirydd a'r swyddogion perthnasol.

Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor

Dim

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 12 Medi 2024

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____